1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2007

Ysgolion yn mynd i'r afael â thangyflawni ymysg disgyblion difreintiedig

Mewn adroddiad a gyhoeddir heddiw, dywed Estyn fod angen i ysgolion wneud mwy i gynnal manteision hirdymor prosiectau a ariennir nawr gan grant Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae adroddiad Estyn yn rhoi sylwadau ar y gwaith y mae ysgolion ledled Cymru wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf wrth gynllunio a rhoi'r £32 miliwn o gyllid a ddyrannwyd i ysgolion yn 2006-7 a 2007-8 ar waith. Nod y grant yw 'codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion' (Rhagori) ymysg plant difreintiedig.

Mae Estyn yn adrodd bod gan y rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n gysylltiedig â'r fenter ddarlun clir o'r cyswllt rhwng difreintedd economaidd-gymdeithasol a thangyflawni, ac mae'r mwyafrif wedi sefydlu amrywiaeth o brosiectau defnyddiol gan ddefnyddio cyllid Rhagori i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae ysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ynghyd â'u hagweddau at ddysgu. Mae rhai ysgolion hefyd wedi sefydlu amrywiaeth o brosiectau eraill gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol, cwricwlwm ehangach i ddisgyblion hŷn, a phrosiectau i wella presenoldeb, ac i ddatblygu meddwl beirniadol disgyblion a'u medrau adeiladu tîm.

Dywed Estyn fod gwaith newydd wedi bod â chyswllt agos â chynlluniau datblygu ysgolion a'i fod yn cysylltu'n dda â strategaethau sydd eisoes yn eu lle. Fodd bynnag, mae diffyg sylweddol yn y gwaith o gynllunio i gynnal manteision grant Rhagori yn y tymor hwy, er enghraifft, drwy hyfforddi staff mewn dulliau addysgu a dysgu newydd.

"Mae bron pob ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata i fesur cynnydd disgyblion ac mae llawer ohonynt wedi gosod targedau realistig ond heriol i'w disgyblion. Er ei fod yn rhy gynnar i farnu effaith prosiectau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a ddarperir iddynt," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid oedd cyflwyno menter Rhagori mewn ysgolion wedi rhoi digon o amser i ysgolion gynllunio prosiectau arloesol i fynd i'r afael ag effaith difreintedd. Yn ei adroddiad, mae Estyn yn galw ar i Gynulliad Cymru ystyried y ffordd orau o gefnogi ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth roi'r fenter ar waith ac wrth ddatblygu rôl cydlynwyr rhanbarthol.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn "Effaith cyllid Rhagori - adroddiad interim" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyhoeddir yn www.estyn.gov.uk.

- Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gamau cynnar menter Rhagori. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn barnu effaith prosiectau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.

- Ym mis Ebrill 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynlluniau i ryddhau £32 miliwn o gyllid dros ddwy flwyddyn ysgol i godi lefel perfformiad disgyblion difreintiedig.

- Anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lythyr i bob awdurdod addysg lleol (AALl) yn rhoi manylion am yr ysgolion a ddewiswyd i gael y grant. Seiliwyd y detholiad ar hawl i brydau ysgol am ddim o 20% neu fwy. Roedd yn rhaid i ysgolion dethol hefyd fod â 50 neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol statudol. Nododd y llythyr faint o grant y byddai pob ysgol yn ei gael yn 2006-2007.

- Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion baratoi cynlluniau dwy flynedd ar gyfer defnyddio'r grant ac i gytuno ar ddefnydd arfaethedig y cyllid gyda'u AALl a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd, darparwyd rhestr o'r defnyddiau cymwys ar y cyllid a set o feini prawf i arfarnu pob cais yn eu herbyn.

- Yn dilyn cyhoeddi rhaglen Rhagori, cafodd cylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Estyn yn 2006-2007 ei ddiwygio i ofyn i Estyn arfarnu i ba raddau y mae'r ysgolion sy'n cael grant Rhagori yn gweithio gyda'u AALlau i hyrwyddo agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cynulliad, drwy fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng difreintedd economaidd-gymdeithasol a thangyflawni. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, roedd rhaid i Estyn weithio gydag AALlau i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith er mwyn herio a chefnogi ysgolion sy'n cael cyllid Rhagori.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464